

Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus - Cais am Dystiolaeth

Crynodeb o'r ymatebion

Trosolwg

Ym mis Gorffennaf 2017, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig y nod i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Cyhoeddwyd cais am dystiolaeth i gasglu gwybodaeth gan bawb sydd â diddordeb ynghylch sut i gyrraedd y nod hwn.

Daeth tri deg tri o ymatebion i law, y rhan fwyaf ohonynt gan sefydliadau'r sector cyhoeddus. Ymatebodd nifer o gwmnïau preifat ac unigolion hefyd, ac rydym yn ddiolchgar i bawb am eu holl sylwadau. Rydym yn awr am gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion hyn. Gofynnwyd saith cwestiwn, a cheir crynodeb isod o'r ymatebion a ddaeth i law ar gyfer pob cwestiwn.

C1. Gellir diffinio'r 'Sector Cyhoeddus' mewn nifer o ffyrdd. Allwch chi ddarparu tystiolaeth i awgrymu y gallai un diffiniad fod yn fwy addas i gyflawni'n nodau, neu'n sicrhau mantais economaidd, gymdeithasol neu amgylcheddol penodol i Gymru?

Roedd dau awgrym ar gyfer diffiniad yn ymddangos yn aml, sef y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer cynnwys sefydliadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'r diffiniad sydd yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth, a ddefnyddir wrth roi'r Gyfarwydddeb Perfformiad Ynni Adeiladau ar waith. Argymhellwyd y ddau gan fod y sefydliadau perthnasol yn gyfarwydd â nhw ac yn eu defnyddio.

Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y dylai'r diffiniad gynnwys sefydliadau a ariennir mewn unrhyw ffordd gan Lywodraeth Cymru megis sefydliadau addysg uwch, cynghorau tref a chymuned, Maes Awyr Caerdydd a derbynwyr grantiau a chontractau. Nododd nifer o ymatebion y dylai'r sefydliadau hyn ymrwymo'n wirfoddol i'r nod. Roedd yr ymatebion oedd o blaid defnyddio'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn awgrymu y dylid cynnwys sefydliadau gwirfoddol eraill. Mae'r Ddeddf wedi sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob bwrdd wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i wireddu'r nodau llesiant. Mae gan bob bwrdd aelodau statudol sy'n cynrychioli'r cyrff a ganlyn: yr awdurdod lleol perthnasol, y bwrdd iechyd lleol, Awdurdod Tân ac Achub Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y gellid annog aelodau anstatudol y byrddau (gwahoddedigion) i ymrwymo i'r nod hefyd.

C2. Pa dystiolaeth allwch chi ei chynnig i awgrymu bod y prif darged, sef Sector Cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, yn annigonol, yn briodol neu'n rhy heriol? Efallai mai'r ffordd orau o ateb y cwestiwn hwn fyddai cyfeirio at eich ymateb i Gwestiwn 1, ac ystyried manteision a heriau dull o'r fath.

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn croesawu'r prif darged er eu bod yn cytuno y byddai'n anodd ei gyrraedd. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurder o ran ystyr carbon niwtral. Nodwyd y byddai'n anodd bod yn garbon niwtral pe bai'r diffiniad yn cynnwys pob ffynhonnell o allyriadau carbon.

Roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio y byddai angen gwobrwyo, cosbi a chymorth i gyrraedd y targed hwn, ac efallai y byddai angen deddfwriaeth benodol i sicrhau ei flaenoriaethu.

C3. Rydym yn credu y byddai Cymru ar ei hennill yn sylweddol pe bai'r uchelgais o Sector Cyhoeddus carbon niwtral yn ymwneud â phob cwmpas allyriadau. Serch hynny, efallai y byddwch chi'n credu y dylid defnyddio cwmpas llai. Hoffem gael eich safbwyntiau a gweld tystiolaeth ategol yn eich ymateb.

Roedd pob ymateb o blaid cynnwys allyriadau cwmpas 1 a 2. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer cynnwys allyriadau cwmpas 3 er gwaethaf yr anawsterau o ran diffinio a rheoli'r cwmpas hwn ac, yn y pen draw, gwneud arbedion cysylltiedig.

Roedd nifer o ymatebion o blaid safoni diffiniad cwmpas 3 er mwyn helpu sefydliadau i gyflawni gostyngiadau. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai cwmpas 3 naill ai fod y tu allan i'r targed, cael ei gyflwyno'n raddol, neu y dylid ei gynnwys ar ôl astudiaethau pellach i ganfod sut i ddiffinio, rheoli a monitro'r targed.

C4. Wrth amlinellu ein bwriad i fonitro cynnydd, mae dewisiadau o ran y ffordd orau o wneud hyn. Pa dystiolaeth sydd gennych chi i awgrymu bod un dull yn fwy tebygol o lwyddo nag un arall?

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roeddent i gyd yn dweud bod angen defnyddio'r dulliau a gweithgareddau presennol, lle'r bo modd, i leihau cymhlethdod a gorbenion.

Roedd ymatebion yn argymhell y dylai unrhyw ateb weithio ochr yn ochr â threfniadau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon a Chynllun Masnachu Gollyngiadau'r Undeb Ewropeaidd y mae rhai sefydliadau eisoes yn eu dilyn. Er bod pawb yn cytuno nad oedd y trefniadau adrodd hyn yn gymwys i bob sefydliad sy'n debygol o

gael eu cynnwys yn y nod, teimlwyd bod digon o wybodaeth ledled Cymru i helpu sefydliadau eraill i ymdopi â'r gofyniad hwn.

Ym marn rhai, roeddent yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus o ran adrodd ar amcanion, datganiadau a phlaniau llesiant.

Barn arall oedd bod angen sicrhau cysondeb o ran trefnu cyllidebau carbon yn y dyfodol ac y dylai gwasanaethau ddarparu'r un data clir a chyson.

O ran dulliau, nodwyd bod Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, ISO14001 (cwmpas 1 a 2) ac ISO14064 (cwmpas 3) eisoes yn cyfrannu at y gwaith o safoni.

C5. Os caiff monitro ei gyflwyno, mae'n golygu y bydd modd gosod targedau interim. Ydych chi'n meddwl y byddai targedau interim yn ddefnyddiol? Os ydych chi. a fyddai'r targedau interim yn ymwneud â phob cwmpas, ac a fyddent yn orfodol neu'n wirfoddol? A fyddai'r targedau interim yn rhai blynyddol neu a yw'n fwy doeth gosod llai o dargedau interim? Allwch chi gynnig tystiolaeth i ategu eich safbwyntiau?

Roedd ymatebion helaeth o blaid targedau interim gan ddadlau y byddent yn sicrhau cynnydd cyffredinol tuag at y nod cyffredinol ac yn helpu i fesur cynnydd ar hyd y ffordd. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y gellid gosod targedau interim ar gyfer allyriadau cwmpasau 1 a 2, ond y gallai targedau ar gyfer cwmpas 3 fod yn wirfoddol neu gael eu cyflwyno'n raddol.

Roedd llawer o ymatebion yn argymhell gosod targedau interim ar gyfer mwy nag un flwyddyn. Ar gyfer 3 blynedd neu 5 mlynedd oedd yr awgrym amlaf. Y prif ddewis oedd cynnwys y targedau yn y trefniadau adrodd presennol. Cafodd y farn hon ei mynegi wrth gydnabod natur aml-flynyddol y prosiectau sydd eu hangen i leihau allyriadau, yr angen i osgoi llurginio ystadegau flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'r angen i leihau'r gwaith adrodd. Ond, roedd yr ymatebion wedi nodi na fyddai targedau interim ar eu pen eu hunain yn ddigon, heb fframwaith llywodraethu, ariannu a chyflawni priodol i gynnal y prosiectau perthnasol.

C6. Bydd angen i'r Sector Cyhoeddus roi nifer helaeth o gamau gweithredu ar waith er mwyn cyflawni ein nodau datgarboneiddio. Allwch chi gyflwyno tystiolaeth o ba gamau gweithredu a fyddai o bosibl yn gallu lleihau allyriadau carbon yn gyflym? Os ydych chi'n cynrychioli corff cyhoeddus, allwch chi ddisgrifio'r hyn rydych chi wedi'i wneud eisoes? Os ydych chi'n cynrychioli darparwr gwasanaethau, allwch chi gynnig tystiolaeth o sut gall eich nwyddau

neu'ch gwasanaethau gyfrannu mewn ffordd arwyddocaol at y gwaith o ddatgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus?

Cafodd amrywiaeth o syniadau eu hawgrymu ar gyfer camau gweithredu cynnar:

- Cymorth ar gyfer datgarboneiddio fflydoedd trafniadaeth
- Gwell hyfforddiant i beirianwyr, a gwell comisiynau ar gyfer prosiectau adeiladu cyfalaf a fyddai'n sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio'n effeithlon.
- Camau gweithredu i leihau allyriadau gan gyfleustodau sy'n cael eu prynu.
- Y potensial ar gyfer rhwydweithiau gwres yn yr ystad gyhoeddus.
- Dull ar gyfer meincnodi a chofnodi gostyngiadau gan y sector cyhoeddus
- Cymorth ar gyfer datblygu mwy o fodolau cynnal prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Polisiâu ar gyfer hyrwyddo ynni carbon isel yn y grid cenedlaethol
- Dalfeydd carbon ar y tir
- Dylunio neu adnewyddu adeiladau i sicrhau allyriadau carbon isel.
- Seilwaith ar gyfer gwefrio a storio cerbydau trydan a'u defnyddio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Cydweithio â chyflenwyr wrth gaffael er mwyn lleihau allyriadau cwmpas 3

C7. Rydym wedi amlinellu ein cred y bydd angen gwrthbwysu neu fasnachu carbon er mwyn i'r Sector Cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030, a bod y dull hwn yn gyfle sylweddol i ysgogi mantais economaidd a chymdeithasol ehangach. Allwch chi gynnig tystiolaeth o gynlluniau masnachu carbon sydd wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus gan y Sector Cyhoeddus?

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion mewn cysylltiad â masnachu carbon, gyda rhai ohonynt o'i blaid. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai rhyw fath o fasnachu carbon, naill ai yn y sector cyhoeddus neu y tu hwnt iddo, yn hanfodol ar gyfer cyrraedd y prif darged o ran bod yn garbon niwtral. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylid rhoi cynlluniau masnachu ar waith yn ofalus rhag iddynt ymddangos fel eu bod yn dreth, neu fethu â sbarduno ymddygiadau datgarboneiddio.

Roedd nifer o ymatebion yn dweud bod '*offsetio*' neu gyfnewid allyriadau carbon yn gallu amharu ar y lefel gyffredinol o ostyngiad mewn carbon sydd ei hangen i osgoi effeithiau mwyaf negyddol y newid yn yr hinsawdd, a gall achosi anghydraddoldeb wrth drin allyriadau lle y gellir fforddio masnachu. Roedd teimlad y gallai storio carbon yn dda yng Nghymru arwain at greu mwy o goedwigoedd a gwella bioamrywiaeth.